Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Hylendid Bwyd Penodol (Diwygiadau ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **4 Chwefror 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Hylendid Bwyd Penodol (Diwygiadau ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019**

**Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio**

- Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd yn nodi rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid
- Rheoliad (CE) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd sy'n nodi rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fwriedir i'w bwyta gan bobl
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 101/2013 yn ymwneud â'r defnydd o asid lactig i leihau halogiad microbiolegol arwynebol ar garcasau gwartheg
- Rheoliad y Comisiwn (UE) 2015/1474 o ran y defnydd o ddŵr poeth wedi'i ailgylchu i gael gwared ar halogiad microbiolegol arwynebol o garcasau

**Y gyfraith UE sy'n cael ei dirymu**

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 636/2014 ar dystysgrif enghreifftiol ar gyfer masnachu anifeiliaid hela gwyllt mawr gyda chroen
-

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Bydd yr OS hwn yn cryfhau pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru. Bydd yn trosglwyddo pwerau deddfwriaethol presennol y Comisiwn Ewropeaidd o dan Reoliadau'r UE 853/2004 a 854/2004 i Weinidogion Cymru yn ymwneud â Chymru. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i lunio rheoliadau, yn amodol ar ddirymiad drwy benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol, i ddiwygio Atodiadau 2 a 3 i Reoliad 853/2004 ac Atodiadau 1 a 6 i Reoliad 854/2004.

Mewn perthynas â Rheoliad 853/2004, mae Atodiad 2 yn nodi gofynion sy'n berthnasol i nifer o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, gan gynnwys marciau adnabod ac iechyd. Mae Atodiad 3 yn nodi rheolau penodol ar gyfer pob math o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid.

Mewn perthynas â Rheoliad 854/2004, mae Atodiadau 1 a 6 yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cyflawni rheolaethau swyddogol i wirio bod gwahanol fathau o gynhyrchion bwyd (amryw fathau o gigoedd ffres, molysgiaid dwygragennog byw, cynhyrchion pysgodfeydd, cynhyrchion llaeth amrwd) yn bodloni'r gofynion hylendid a phennu'r rheolau ar gyfer y tystysgrifau yn cyd-fynd â mewnforion.

Ni fydd yr OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**Diben y diwygiadau**
Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion, sy'n deillio o'r DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, yn neddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn uniongyrchol sy'n ymwneud â chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid. Ymhlith pethau eraill, byddant yn gwneud mân ddiwygiadau technegol a diddymiadau i Reoliadau UE 101/2013, 2015/1474 a 636/2014.

Hefyd, bydd y Rheoliadau yn gwneud diwygiadau technegol a sylweddol i ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn uniongyrchol sy'n darparu rheolau hylendid penodol ar gyfer dulliau sefydliadau o drin rhai cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (Rheoliad (CE) Rhif 853/2004), a chyfraith yr UE a ddargedwir yn uniongyrchol sy'n nodi'r rheolau ar gyfer gweithredu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (Rheoliad (CE) Rhif 854/2004). Ni fydd yr OS yn gwneud unrhyw newid sylweddol i lefelau diogelu iechyd pobl (neu anifeiliaid), neu i safon uchel y bwyd a bwyd anifeiliaid y mae defnyddwyr yn ei disgwyl gan gynhyrchion a gynhyrchir yn ddomestig a chynhyrchion a fewnforir.

Mae'r cywiriadau technegol sydd ynghlwm yn cynnwys cael gwared ar gyfeiriadau at sefydliadau'r UE a, mewn cysylltiad â Rheoliad 853/2004, diwygio darpariaethau ar y marc iechyd ac adnabod. Dyma'r marc adnabod y mae'n rhaid ei roi ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a roddir ar y farchnad er mwyn gallu eu holrhain, ac i ddynodi bod y cynhyrchion risg uchel hyn yn cael eu cynhyrchu'n ddiogel a dan reolaeth yr awdurdod cymwys.

Mae deddfwriaeth yr UE i'w chadw yn disgrifio ffurf y marc adnabod, y mae'n rhaid iddo fod yn siâp hirgrwn a chynnwys gwybodaeth sy'n adlewyrchu'r canlynol:

- bod y sefydliad yn yr EU drwy'r dynodiad 'EC';
- yr Aelod-wladwriaeth y mae'r sefydliad yn bodoli ynddi;
- rhif cymeradwyo unigryw y sefydliad.

Pan fydd y DU yn peidio â bod yn Aelod-wladwriaeth o'r UE, ni fydd gan fusnesau'r DU hawl i ddefnyddio'r dynodiad "EC" yn eu marciau adnabod. Bydd yr OS yn cael gwared ar y gofyniad hwn o gyfraith yr UE a ddargedwir i sicrhau bod y gyfraith yn parhau i allu cael ei gweithredu a'i gorfodi ar ôl ymadael â'r UE, a bod diogelwch bwyd yn cael ei gynnal yng nghyd-destun cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid.

Mae'r cywiriadau technegol i Reoliad 853/2004 hefyd yn cynnwys diwygio darpariaeth sydd ar hyn o bryd yn mynnu bod rhaid i'r ddogfen gofrestru sy'n gorfod cyd-fynd â swp o folysgiaid dwygragennog fod mewn o leiaf un o ieithoedd swyddogol yr Aelod-wladwriaeth lle mae'r sefydliad sy'n derbyn wedi'i leoli. Bydd y Rheoliadau yn diwygio'r ddarpariaeth i nodi bod yn rhaid i'r ddogfen fod yn Saesneg, neu'n Gymraeg ac yn Saesneg. Mae newid

tebyg yn cael ei wneud i'r ddarpariaeth ar gyfer iaith tystysgrifau sy'n gorfod cyd-fynd â'r cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fewnforir.

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol, sy'n nodi effaith bob diwygiad yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/U7eheF57

**Pam rhoddwyd caniatâd**

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (ASB y DU) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai creu Offerynnau Statudol ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud heb fod angen. Bydd cydsynio i OS ar gyfer y DU i gyd yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae ASB Cymru/Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol bod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.